Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd
# Heol Woodland
# Castell-Nedd
# SA11 3AL

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn ysgol benodedig Gymraeg sy’n gwasanaethu Castell-nedd. Mae 295 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol, a 56 o blant oed meithrin, rhan amser. Addysgir y plant mewn 6 dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a 7 dosbarth yng nghyfnod allweddol 2. Mae’r ysgol yn nodi eu bod yn dod o gefndiroedd amrywiol gyda rhai’n freintiedig ac eraill yn ddifreintiedig.

Daw 72% o'r disgyblion o gartrefi lle Saesneg yw'r brif iaith. Ychydig iawn o’r disgyblion sydd yn hanu o gefndir ethnig ac mae 12.5% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 18% ar y gofrestr anghenion addysgol ychwanegol ac nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2006 o dan arweiniad yr un pennaeth. Penodwyd dirprwy bennaeth newydd ar gyfer tymor yr Hydref 2012 yn dilyn dyrchafiad y dirprwy blaenorol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn 2012-2013 yw £2,972. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw £7,410 a'r lleiafswm yw £2,806. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn safle 64ain o'r 68 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod ethos cartrefol, gofalgar a gweithgar yn bodoli, sy'n hybu parch, ymddygiad da, cwrteisi ac agwedd iach tuag at ddysgu;
- bod asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar y cyfan yn cymharu'n dda gyda chanlyniadau ysgolion tebyg;
- bod gan yr ysgol systemau effeithlon ar gyfer olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion sy'n arwain at gynllunio effeithiol;
- bod yr ysgol yn darparu cynhaliaeth arbennig o dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys y mwy abl a thalentog; a bod
- rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac ar brydiau cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth i les a datblygiad y disgyblion;
- bod gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i fonitro safonau ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol;
- bod gan yr ysgol strwythur rheoli clir gyda chyfrifoldebau wedi eu dosbarthu yn effeithiol;
- bod prif ddeilliannau'r broses hunanarfarnu yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol; a
- bod y corff llywodraethol yn gweithredu fel ffrind beirniadol ac mae ganddynt ymdeimlad clir cytunedig o bwrpas a chyfeiriad.

## Argymhellion

A1 Rhannu arferion gorau yr addysgu ar draws pob dosbarth

A2 Parhau i ddarparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

A3 Parhau i ddarparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth a'r byd ehangach

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae llawer o'r plant yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau ar dasgau, yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Er bod bron pob disgybl yn hanu o gartrefi di-Gymraeg, maent bron i gyd, o oed cynnar, yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a chyfathrebu ynghyd â'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r cynnydd hwn, ar draws holl feysydd y cwricwlwm, yn gymesur â'u hoed a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a gallant weithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau neu grwpiau neu fel unigolion i ymateb yn briodol i dasg. Serch hyn, nid yw'r rhan fwyaf wedi datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n medru llywio'u dysgu eu hunain.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2, gall y mwyafrif ohonynt ddarllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol iawn wrth ddarllen ar goedd. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n llwyddiannus a defnyddio'u medrau darllen yn fedrus i ddarganfod gwybodaeth ar gyfer eu gwaith mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ysgrifennu'n gywir ac i nifer o bwrpasau. Mae'r ysgrifenwyr mwyaf medrus yn dechrau cynnal, datblygu ac ymestyn eu syniadau wrth gyflwyno darnau estynedig a dychmygus.

Mae cyfran y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch yn 2012 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae perfformiad disgyblion yr ysgol mewn datblygiad mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ychydig o dan gyfartaledd y teulu. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (deilliant 6) yn sylweddol uwch nag ysgolion y teulu. Mae perfformiad y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn y tri maes ymhlith 50% uchaf y grŵp.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniad y disgyblion yn dda mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn cyfuniad o'r Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch wedi bod yn uwch na chyfartaledd canrannau ysgolion y teulu mewn cyfuniad mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae canlyniadau Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn 2012 yn uwch na chanrannau'r teulu. Mae canlyniadau

gwyddoniaeth ychydig yn is na chyfartaledd y teulu. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) ymhob un o'r pynciau yn llawer gwell nag ysgolion y teulu. Mae cyflawniad y disgyblion yn y lefelau uwch mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ac mae gwyddoniaeth ymhlith y 50% uchaf.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog, yn gwneud cynnydd da iawn. Does dim patrwm amlwg yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gofidio am unrhyw beth. Mae'r holl ddisgyblion yn gwrtais ac mae ymddygiad y plant yn ystod y gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ardderchog. Maent yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion ac mae hyn yn gryfder drwy'r ysgol. Mae system 'Bytis Bach a Mawr' yn rhoi cyfleoedd da iawn i alluogi disgyblion hyn ofalu am y rhai iau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd o gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a chymryd rhan mewn gwersi a gweithgareddau ymarfer corff. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn ymdrin yn dda â'r holl ddigwyddiadau gan gynnwys bwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac mae bron pob un yn ddysgwyr bodlon. Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos cymhelliant amlwg yn eu dysgu, nid ydynt yn cyfrannu'n ddigonol at gynllunio'r hyn y maent yn ei ddysgu trwy gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau.

Mae cyfraniad y disgyblion yn cael sylw da iawn yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i gyfrannu at fywyd yr ysgol ac mae wedi gwneud penderfyniadau am nifer o welliannau i amgylchedd yr ysgol.

Mae presenoldeb y disgyblion yn gosod yr ysgol ym mhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg ar sail canran disgyblion sydd â hawl i brydau am ddim. Mae prydlondeb y disgyblion wrth gyrraedd yr ysgol yn dda.

Trwy ystod eang o weithgareddau yn yr ysgol yn ogystal â phrofiadau allgyrsiol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn dda. Mae'r cynllunio rheolaidd gan yr holl staff ar y cyd yn gymorth i ddarparu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Mae'r cydweithio cyson sydd rhwng y staff addysgu a'r staff chynorthwyol yn cryfhau'r profiadau dysgu a ddarperir.

Mae'r gweithgareddau amrywiol a gynigir i ddisgyblion yn sicrhau cyfleoedd i adeiladu ar eu medrau a gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn dda. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cynllunio cyfleoedd digonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl mor effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth eang o gyfleoedd diddorol a pherthnasol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Mae hyn yn gryfder ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth sydd yn ymwneud â phrosiectau eco ac Ysgolion Iach yn annog disgyblion i ystyried datblygiadau cynaliadwy yn effeithiol. Er hynny, nid yw'r ysgol wedi sicrhau sylw digonol i'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ethos gweithgar a hapus yn bodoli yn yr ysgol gyda pherthynas waith dda iawn rhwng y staff a'r disgyblion. Yn y gwersi gorau a arsylwyd, gwelwyd darpariaeth gyffrous sydd wedi llwyddo i gynnal diddordeb y disgyblion. Mae'r tasgau yn apelio atynt, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn ateb gofynion pob unigolyn. Mae'r staff yn modelu iaith yn dda ac yn cywiro iaith lafar y disgyblion mewn modd sensitif. Ar y cyfan, mae rheolaeth ddosbarth yn dda yn y mwyafrif o'r gwersi.

Lle mae'r addysgu'n dda neu'n rhagorol, mae'r gwahaniaethu yn effeithiol a'r holi yn dreiddgar. Rhoddir adborth llafar da ar eu gwaith a chyfleoedd cyson i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain. Mae'r gwersi hyn wedi'u paratoi'n drylwyr a'u trefnu'n effeithiol gydag amcanion dysgu clir. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da.

Mewn lleiafrif o'r gwersi lle nad yw'r addysgu cystal, mae'r cynllunio yn arwynebol a'r disgwyliadau'n isel. Anghyson yw'r cyfleoedd i'r disgyblion wella'u gwaith eu hunain yn y gwersi hyn.

Mae gan yr ysgol systemau effeithlon ar gyfer olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asesiadau i olrhain cynnydd disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae ansawdd yr adroddiadau ar gyfer rhieni yn dda ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth i les a diogelwch disgyblion. Mae ganddi weithdrefnau cynhwysfawr a chysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau arbennig fel y gwasanaethau iechyd a lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol, a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion i fynegi barn ac i roi syniadau ar sut i wella'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi datblygu côd ymddygiad ar gyfer iard yr ysgol, sy'n weladwy i bob plentyn ac mae hyn yn cael dylanwad cryf ar ymddygiad y disgyblion ar yr iard.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol ei holl ddisgyblion yn ddyddiol trwy feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhob gweithgarwch. Mae disgyblion yn cael eu hannog i fod yn falch o'u cymuned.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder

Mae polisïau priodol a gweithdrefnau trwyadl ar waith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn cael eu gweithredu'n llawn. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi'r holl ddisgyblion sydd wedi cael eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi nodi disgyblion mwy abl a thalentog ac yn darparu'n dda ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol ac mae ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb a hawl gyfartal i'r cwricwlwm. Mae yma gymuned ofalgar sydd yn darparu cyfle cyfartal i'r disgyblion i holl weithgareddau'r ysgol. Rhoddir pwyslais ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae adeiladau'r ysgol yn cynnig digon o le ar gyfer gweithgareddau'r ysgol ac fe wneir defnydd da ohonynt. Mae'r ardal allanol yn ddeniadol ond yn gyfyng ar gyfer niferoedd y plant. Mae digon o adnoddau ym mhob maes i hyrwyddo dysgu ac addysgu. Mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol gydag arddangosfeydd lliwgar sy'n dangos parch at waith y disgyblion. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd â phlant yn ei chanol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r holl randdeiliaid. Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir ac yn sail gadarn i'w holl weithgareddau. Mae gan yr ysgol strwythur rheoli clir, gyda chyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n effeithiol. Mae gan bob aelod staff ddisgrifiad swydd priodol ac mae pob un yn deall yn llwyr ei rôl a'i gyfrifoldebau o fewn y gyfundrefn.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i fonitro safonau ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n effeithiol iawn ac yn deall eu rôl yn dda. Mae rolau a chyfrifoldebau unigolion o fewn y corff yn glir. Mae'r corff yn ymwybodol iawn o berfformiad yr ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae llywodraethwyr yn dehongli data priodol, yn ymweld â dosbarthiadau'n gyson, yn mynychu ymweliadau addysgol ac yn cyfrannu'n weithredol at bwyllgorau mewnol yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda iawn a bu'n rhan o beilot y Cyfnod Sylfaen o'r cychwyn. Hyrwyddir hawliau'r plentyn yn llwyddiannus ynghyd â mentrau fel Eco Ysgolion, Ysgolion Iach, a Masnach Deg. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn briodol. Cafodd ei lunio gan y pennaeth ac fe gafwyd mewnbwn arwyddocaol gan yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr.

Mae gan yr ysgol weithdrefn gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer gweithredu'r broses hunanarfarnu. Mae'n cynnwys dadansoddi data, arsylwi ar ddysgu ac addysgu a chywain barn staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion. Mae prif ddeilliannau'r broses hon yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol.

Cynhyrchwyd y cynllun datblygu ysgol, sydd o ansawdd da, ar sail arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau hyn hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft llythrennedd. Mae'r targedau'n synhwyrol ac yn cynnwys meini prawf meintiol lle bo'n briodol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r argymhellion a nodwyd o fewn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn y sefydliad a gydag ysgolion Cymraeg eraill yr ardal. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dylanwadu'n bositif ar gynllunio, cymedroli asesiadau, ac ar ddatblygu strategaethau ac egwyddorion addysgu eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned yn dda. Mae'r rhieni yn gefnogol i'r holl weithgareddau a ddarperir ac yn ymfalchïo ym mholisi 'drws agored' yr ysgol.

Maent yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am gynnydd eu plant ac maent yn hapus gyda llawer o agweddau o fywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bartneriaeth fuddiol a llesol gyda'r Gymdeithas Athrawon a Rhieni sydd yn codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol er mwyn codi safonau.

Ceir trefniadau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddod o'r cyfnod meithrin i addysg amser llawn.

Mae cysylltiadau da ac agos gyda'r ysgol uwchradd yn hybu gwelliannau mewn safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae trefniadau pontio effeithiol a hwylus er mwyn hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd a sicrhau eu bod yn paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Trwy berfformiadau disgyblion mewn mannau yn y gymuned, maent yn codi arian i elusennau priodol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda a chaiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd ac yn briodol. Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o adnoddau, athrawon a staff cynorthwyol er mwyn addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyflawni eu rôl yn dda ac yn gwneud cyfraniad pwysig i waith a bywyd yr ysgol. Gwneir defnydd effeithlon o arbenigedd, cymwysterau a phrofiad unigolion, er enghraifft wrth gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer meysydd penodol o'r cwricwlwm. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Maent yn gwario yn unol â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol ac yn sicrhau nad oes gormod o arian wrth gefn.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr, ynghyd â'r defnydd darbodus o'r cyllid.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Y Cyfnod Sylfaen**

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu’n uwch) yn Nangosydd Deilliannau’r Cyfnod Sylfaen ychydig yn is na chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu. Serch hyn, mae canlyniadau'r Dangosydd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae cyflawniadau disgyblion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, yn uwch na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion a Chymru gyfan. Mae eu canlyniadau mewn datblygiad mathemategol ychydig yn is na chyfartaleddau’r teulu. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, mae canlyniadau disgyblion hefyd ychydig islaw’r cyfartaledd y teulu o ysgolion, ond yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol.

Mae canlyniadau disgyblion o ran cyflawni’r lefel uwch na’r disgwyl (Deilliant 6) ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu ac ysgolion Cymru ym mhob maes.

Mae ychydig o wahaniaethau rhwng perfformiad y bechgyn a’r merched sy’n cyflawni Deilliant 5. Mae’r bechgyn yn cyflawni’n well na’r merched mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu sydd yn groes i’r darlun cenedlaethol. Mae’r gwahaniaethau’n llawer mwy anghyson gyda chyflawniad Deilliant 6. Yn gyffredinol, mae merched uwch eu gallu yn perfformio’n llawer gwell na bechgyn uwch eu gallu mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn ogystal â datblygiad personol a chymdeithasol. Serch hyn, mae’r gwrthwyneb yn wir mewn datblygiad mathemateg.

**Cyfnod Allweddol 2**

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyfartal neu’n uwch na chyfartaleddau’r teulu a chyfartaleddau ysgolion Cymru mewn 4 o’r 5 mlynedd diwethaf.

Yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion yn lefel 4 mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn llawer uwch na chyfartaleddau’r teulu ac ysgolion Cymru. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn gwyddoniaeth ychydig yn is na chyfartaledd y teulu, ond yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru gyfan.

Mae perfformiad disgyblion yr ysgol dros y 5 mlynedd diwethaf wedi bod yn anghyson. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 yn 2011 yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob pwnc. Bu canlyniadau mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth, ymhlith y 50% isaf yn 2011. Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae cyrhaeddiad y disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg ymhlith y 50% uchaf y grŵp gyda gwyddoniaeth, er yn dangos cynnydd yn parhau ymhlith y 50% isaf. Saesneg yw’r pwnc sydd yn perfformio orau gyda bron pob plentyn yn cael lefel 4 neu’n well mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Mae cyflawniad y bechgyn ychydig yn uwch na'r merched mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer lefel 4. Mae canran y bechgyn sydd yn cyflawni lefel 5 o'u cymharu gyda'r merched yn fwy sylweddol ym mhob pwnc, gyda'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld mewn mathemateg.

Mae llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ynghyd â'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Ymatebodd 104 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae bron pob un o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac nid oes gwahaniaethau nodweddiadol rhwng ymatebion y bechgyn a'r merched. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion cadarnhaol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd, mae bron pob disgybl yn gwybod beth i'w wneud, a gyda phwy i siarad. Pan fo achosion o fwlian, mae bron pob un plentyn yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda gyda phob achos a gwyddant gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Cred bron pob un disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Serch hyn, mae ychydig o'r disgyblion yn credu nad yw'r gwaith cartref a osodir yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol.

Mae llawer yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol.

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 82 o atebion i'r holiaduron rhieni. Mae bron pob rhiant yn mynegi lefelau uchel o foddhad gyda'r ysgol. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol ym mron pob un achos yn sylweddol uwch na chymariaethau cenedlaethol.

Mae pob rhiant yn credu bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau. Mae bron pob rhiant yn credu bod eu plant yn cael eu trin a pharch ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn cytuno bod yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol, ac maent yn hapus gydag ansawdd yr addysgu. Mae bron pawb yn fodlon ag ymddygiad y plant yn yr ysgol ac yn cytuno bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

Mae ychydig iawn o’r rhieni yn credu nad ydynt yn derbyn digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn.  Mae ychydig iawn o’r rhieni hefyd yn teimlo nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n ddigonol ar y gwaith a wneir yn yr ysgol.  Mae bron pob rhiant yn deall trefn yr ysgol ar gyfer codi cwyn, ac yn nodi eu bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae bron pob rhiant yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da a bod y staff wedi eu helpu i ymgartrefu’n dda wrth gychwyn yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Annwen Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tudur Jones | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |